

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Fforwm Mynediad Lleol held  
at Room P4 - County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Tachwedd,  
2023 at 2.00 pm

YN BRESENNOL: Cynghorydd Sir Sara Burch,

I. Brooke, J. Cockitt, S. Hampshire, T. Hook, S. Lewis, P. Mundell,  
D. Smith, M. Storey and A. Underwood

## SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Richard Dickenson	
Richard Garner	Public Right of Way Officer
Paul Keeble	Peiriannydd Grŵp (Priffyrdd a Rheoli Llifogydd)
Matthew Lewis (Cefn Gwlad)	Arweinydd Interim Perfformiad, Gwerthuso a Datblygu Rhaglen BywydMynwy
Ruth Rourke	Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad
Christian Schmidt	Swyddog Cynllunio a Pholisi Trafnidiaeth

## YMDDIHEURIADAU:

Councillors

### 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb / Cyflwyniadau

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth yr aelodau canlynol: John Askew, Anthea Fairey, Sylvia Fowles, Martin Sweeney. Rhoddwyd ymddiheuriadau hefyd gan Richard Ray Cyngor Sir Fynwy a Bob Campbell Cyfoeth Naturiol Cymru. **Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan AU.** Cyflwynodd yr aelodau a'r arsylwyr eu hunain. Nodwyd bod y Cynghorydd Sara Burch bellach yn aelod o'r fforwm, a benodwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

### 2. Datganiadau o Fuddiant

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 3. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy a gynhaliwyd ar 11eg Gorffennaf 2023

Diwygiwyd cofnodion y cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2023 i adlewyrchu cwmpas y drafodaeth ar eitem 5, Diweddariad Teithio Llesol, er mwyn iddynt ddarllen: "Ynglŷn â Dolydd y Castell trafododd yr Aelodau'r materion yn ymwneud â'r cynigion teithio llesol gan gynnwys y rhai a godwyd oherwydd y gridiau gwartheg a nodwyd bod sesiwn gwahodd rhanddeiliaid gyda Chyngor Tref y Fenni i'w chynnal ddydd Llun 17eg Gorffennaf" (tanlinellir yr ychwanegiadau). Derbyniwyd y cofnodion diwygiedig (cynigiwyd gan **BA** ac eiliwyd gan **JC**).

Adroddodd **JC** ar ei phresenoldeb yn y cyfarfod rhanddeiliaid. Gofynnodd yr Aelodau am gynnydd ar y cynllun a phenderfyniad ar ddefnyddio gridiau gwartheg yn y dyfodol ai peidio.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Fforwm Mynediad Lleol held at Room P4 - County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Tachwedd, 2023 at 2.00 pm

Cadarnhaodd **RER** bod trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru ar fanylion y cynllun. Rhoddodd **PK** ddiweddariad ar gynnydd gyda'r bont teithio llesol; er gwaethaf dau ymgais i osod y contract, nid oedd modd penodi contractwr eto, fodd bynnag, mae gwaith wedi'i gwblhau ar fynediad ramp ar y lan orllewinol yn ddigonol i ddechrau ac felly cynnal y caniatâd cynllunio.

#### **4. Traciau a Llwybrau Dyffryn Gwy Isaf (Adroddiad ynghlwm)**

Rhoddodd **ML** grynodedb byr o gefndir prosiect Traciau a Llwybrau Dyffryn Gwy Isaf (y cyfeiriwyd ati yn flaenorol fel Strategaeth Mynediad Hamdden Integredig Dyffryn Gwy Isaf) yr oedd aelodau'n gyfarwydd â hi o ganlyniad i drafodaethau blaenorol, a chyflwynwyd **RD** o Dwristiaeth Yfory sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ran Partneriaeth AHNE Dyffryn Gwy.

Cafwyd cyflwyniad byr gan **RD** yn amlinellu'r gwaith hyd yma a'r egwyddorion yw'r dull gweithredu. Y nod oedd datblygu'r ffordd mwyaf ymarferol o gefnogi gofynion pob math o ddefnyddwyr, gan hefyd ddiogelu'r amgylchedd naturiol ac adeiledig ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r allbynnau arfaethedig yn strategaeth a chynllun gweithredu newydd. Er mwyn cyflawni hyn, cynigiwyd proses gynhwysol gan ddod â'r holl randdeiliaid ynghyd drwy ymgynghoriad cynhwysol wedi'i hwyluso'n broffesiynol.

Bydd y Strategaeth yn edrych ar ffordd o reoli adnoddau naturiol yr AHNE yn well, a hefyd y rhai sy'n ei fwynhau, gan ymateb i'r cyfle i gefnogi'r rhwydwaith traciau a llwybrau a lleihau effaith llifogydd ac erydu. I geisio'r canlynol:

- Annog ymddygiad cyfrifol ymhlith pob defnyddiwr ac annog pobl i beidio ag ymddwyn mewn ffordd nas dymunir.
- Creu amgylchedd, drwy adnoddau, cyfleusterau ac addysg sy'n galluogi pob grŵp defnyddiwr i fwynhau'n gytûn bopeth sydd gan AHNE Dyffryn Gwy i'w gynnig.
- Darparu cefnogaeth i dirfeddianwyr ac Awdurdod Priffyrdd i gynnal traciau a llwybrau, a'u hamgylcheddau, mewn ffordd sy'n sicrhau mynediad da i ddefnyddwyr ac yn diogelu nodweddion naturiol a threftadaeth yr ardal.

Wrth ddatblygu'r strategaeth, bydd y ffocws ar y canlyniadau. Dyna'r manteision y bydd gweithredu'r strategaeth yn eu cael ar y gymuned, y dirwedd, bioamrywiaeth a threftadaeth.

Darparodd **RD** fanylion y broses ymgynghori gyhoeddus a fydd yn rhedeg tan ddechrau 2024 ac anogodd gyfranogiad a lledaenu'r neges mor eang â phosibl.

Amlinellodd **RD** gais i aelodau i helpu i ddarparu gwybodaeth am ddwystrer a rhyngweithiadau defnydd ar draws y rhwydwaith o fewn ardal y prosiect. Byddai'r wybodaeth hon yn bwydo i mewn i'r asesiad ehangach.

Gofynnodd **SH** am y berthynas gyda llwybrau tebyg yn Swydd Gaerloyw. Nododd **RD** a **ML** er bod y prosiect wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac felly ei fod wedi'i gyfyngu i ran Cymru o'r AHNE, roedd cyswllt â thîm hawliau tramwy cyhoeddus Swydd Gaerloyw yn rhan o'r ymgynghoriadau a'r gwaith cefndir. Nododd **PA** werth treftadaeth y rhwydwaith a oedd yn adlewyrchu ei ddatblygiad hanesyddol. Gofynnodd **BA** am rôl cynghorau cymuned a'r angen i

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Fforwm Mynediad Lleol held at Room P4 - County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Tachwedd, 2023 at 2.00 pm

lunio adroddiad ymarferol gyda chynigion realistig. Cytunodd **RD** mai dyma'r bwriad a chadarnhaodd fod cynghorau cymuned yn rhan o'r broses ymgynghori. Gofynnodd **MS** a oedd newid statws llwybrau yn rhan o'r prosiect, a thynnodd sylw at lwybrau sy'n newid eu statws dros eu hyd. Cadarnhaodd **RER** y gallai ystyriaeth o'r fath fod yn rhan o'r broses, yn amodol ar y profion cyfreithiol perthnasol ac y gallai fod yn rhan o'r cynllun gweithredu. Gofynnodd **RD** i'r llwybr penodol y cyfeirir ato yn Llanfihangel Troddi gael ei adnabod mewn unrhyw ymateb.

#### **5. Diweddariadau Mynediad i Gefn Gwlad**

Rhoddodd **RER** y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau Mynediad Cefn Gwlad. Mae'r tîm wedi bod yn brysur yn ystod y mis diwethaf gan symud cofnodion i lwyfan newydd. Mae hyn wedi cynnwys gosod gweinydd newydd ar gyfer CAMS, y system rheoli mynediad cefn gwlad, a llawer o waith i gysylltu'r cofnodion a sicrhau bod ein mapio yn dal i weithio, a oedd yn dal i weithio ar y gweill. Mae cofnodion papur hefyd wedi cael eu sganio ac yn cael eu hintegreiddio i'r system newydd. Nodwyd bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd rhywfaint o darfu yn ystod yr wythnosau nesaf i sicrhau bod y systemau i gyd yn gweithio'n iawn, a bod staff yn cael eu hyfforddi i gael mynediad at y wybodaeth.

Esboniodd **RER** a **CC** y newidiadau arfaethedig i arddangos cofrestrau cyfreithiol amrywiol a chau dros dro o fewn CAMS / y system fapio rhyngweithiol gyhoeddus. Bydd hyn yn gwella mynediad cyhoeddus at wybodaeth yn sylweddol ac yn lleihau'r amser a gymerir i gynnal a diweddarau'r wybodaeth. Dangoswyd enghraifft gyflawn i'r aelodau ar gyfer Ynys Môn a oedd yn dangos y rhyngwyneb cyhoeddus gwell. Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau esboniodd **CC** yr awydd i wella mapio sylfaen gwell o fewn y mapio rhyngweithiol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

Diweddarodd **RER** yr aelodau ar gynnydd ar brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwaith ar Safle Picnic y Graig Ddu, y prosiect Cysylltiadau Cymunedol a'r CLG newydd gyda Rhodwyr Cymru i gefnogi'r bartneriaeth Llwybrau at Gymunedau. Cyfeiriodd **RER** hefyd at gynnydd wrth asesu pontydd ar draws y rhwydwaith, wrth ddisodli Pont Treadam ar Lwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa a hyrwyddo codau cefn gwlad.

O ran y cynigion diwygio mynediad roedd trafodaethau diweddar gyda Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oedd deddfwriaeth sylfaenol wedi'i chynllunio, ac felly dim ond y cynigion hynny y gellid eu cynnal gydag is-ddeddfwriaeth neu newidiadau i ganllawiau oedd yn cael eu hystyried. Nododd **RER** bod trafodaeth bellach rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi'i chynllunio gydag awdurdodau yn dal i llobio am newidiadau ymarferol i leihau cymhlethdod a gwella'r ddarpariaeth, er enghraifft dileu'r angen i hysbysebu gorchmynion yn y fformat presennol o fewn papurau newydd.

Trafododd yr Aelodau'r diwygiad arfaethedig o reoliadau'r fforwm mynediad lleol a oedd wedi'u cynnwys yn y pynciau yn y cyfarfod Cadeiryddion LAF diweddar a fynychwyd gan **AU** ac **IB**. Roedd yr awgrym y dylid cyfyngu aelodau i un tymor 3 blynedd yn y swydd, wedi profi'n ddadleuol ac fe'i gwrthwynebwyd gan gyfarfod y Cadeirydd. Mae aelodau'n parhau i fod o blaid newidiadau ymarferol i weinyddu a chynnal cyfarfodydd yn y dyfodol, gan gynnwys caniatáu cyfarfodydd hybrid, cyfathrebu electronig ac ati.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Fforwm Mynediad Lleol held  
at Room P4 - County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Tachwedd,  
2023 at 2.00 pm**

### **6. Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus drafft ar Reolaethau Cŵn yn Sir Fynwy**

Trafododd yr Aelodau'r ymgynghoriad presennol ar y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus drafft ar Reolaethau Cŵn yn Sir Fynwy. Nodwyd mewn nifer gyfyngedig iawn o achosion lle cynigiwyd gwahardd cŵn (caeau chwaraeon ac ardaloedd chwarae), eu bod yn cael eu croesi gan linell ddiffiniol hawliau tramwy cyhoeddus. Ym mhob achos cynigiwyd na fydd unrhyw gyfyngiad ar hawliau tramwy cyhoeddus. Cododd yr aelodau gwestiynau ynghylch y gorchmynion arfaethedig gan gynnwys sut roeddent yn ymwneud â chaeau chwaraeon ac ardaloedd chwarae sydd heb ffensys, a phryderon y gallai cyfyngiadau arwain at orfodi mwy o gerdded cŵn ddigwydd yn y cefn gwlad cyfagos. Gofynnodd **JC** sut y cafodd y mater hwn, a phryderon diogelwch cysylltiedig cŵn ger gwartheg, sylw yn y Cod Cefn Gwlad. Ymatebodd **RER** fod y cod cerdded cŵn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r mater hwn a byddai hynny'n rhan o'r gweithgaredd a nodwyd o dan eitem 5 ar yr agenda. Yn dilyn trafodaeth penderfynodd y fforwm beidio ag ymateb ar y cyd a gadael i aelodau unigol ymateb fel y dymunent.

### **7. Diweddariadau Cyfoeth Naturiol Cymru (Bob Campbell, Uwch Swyddog Rheoli Tir, Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru)**

Am resymau gweithredol nid oedd CNC yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf arferol am waith rheoli tir a choedwigoedd CNC:

### **8. Diwedd cyfnod y fforwm presennol a recriwtio fforwm newydd**

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y fforwm presennol, cynigiodd yr ysgrifennydd ei ddiolch am waith y fforwm dros y 3 blynedd diwethaf, am eu cyngor ac am gyfraniadau unigol gan aelodau a'r cadeirydd.

Amlinellodd **ML** y trefniadau arfaethedig i recriwtio fforwm newydd. Roedd cyfarfod y Cyngor Sir ar 20 Gorffennaf 2023 wedi sefydlu panel aelodau newydd a fyddai'n ystyried pob cais ac yn adrodd yn ôl eu hargymhellion i'r Cyngor Sir am benderfyniad terfynol. Roedd y rhaglen ddisgwyliedig yn ceisio'n gyhoeddus am benodiadau newydd erbyn diwedd mis Tachwedd, gyda dyddiad cau canol Ionawr, ystyriaeth gan y panel i ganiatáu adroddiad i gyfarfod y Cyngor ar 29 Chwefror 2024 a chyfarfod cyntaf y fforwm newydd cyn diwedd mis Mawrth 2024, felly o fewn y targed o 4 mis rhwng Fforymau Mynediad Lleol.

### **8. Dyddiadau'r cyfarfodydd i ddod**

Mawrth 2024, i'w drefnu ar gyfer y fforwm newydd

Diolchodd **PA** i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cefnogaeth a daeth y cyfarfod i ben am 4:30pm.

Llofnodwyd fel cofnod cywir o'r trafodion: .....

(Cadeirydd)

Dyddiad: .....

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Fforwm Mynediad Lleol held  
at Room P4 - County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 9fed Tachwedd,  
2023 at 2.00 pm**

**Gorfennodd y cyfarfod am 4.30 pm**